**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Elin Jones AS,
y Llywydd

3 Chwefror 2022

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr yn gofyn am adborth er mwyn llywio adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau. Trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith eich llythyr yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr a chytunwyd y dylwn ymateb fel a ganlyn.

Mae'r Senedd yn senedd fach: tua 45 o'i Haelodau sydd ar gael ar gyfer ei threfn bwyllgora. Yn anochel, bydd heriau'n codi wrth geisio dal y ddysgl yn wastad rhwng cynnal capasiti'r drefn bwyllgora a sicrhau bod aelodau'r drefn honno'n gallu cyfrannu mewn ffordd ystyrlon. Yn ddelfrydol, gallai mwy o'r bwyllgorau gyfarfod yn amlach. Fodd bynnag, byddai hyn yn tanseilio gallu'r Aelodau unigol. Mae pen draw i'r hyn y gellir ei wneud yn realistig gyda nifer bresennol yr Aelodau o'r Senedd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau yr ydym ni a'r system yn gweithredu o danynt, rydym yn credu fel Pwyllgor ein bod wedi gallu blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau bod y materion sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yn cael eu hystyried yn yr amser sydd ar gael i ni.

Credwn fod yr amserlen bresennol yn cynnig rhai manteision, gan gynnwys caniatáu i'r Pwyllgor gynnal diwrnod cyfan o gyfarfodydd i wyntyllu maes polisi yn fanwl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob pwyllgor yn dilyn y patrwm hwn. Rydym hefyd yn credu bod agwedd hyblyg y Pwyllgor Busnes at gyfarfodydd ychwanegol wedi bod yn gadarnhaol. Bydd angen iddo barhau i ymateb i fusnes, megis Biliau'r Senedd. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried ei ddull ar gyfer pennu terfynau amser ar gyfer y gwaith y mae'n ei gyfeirio at bwyllgorau. Dylid sicrhau bod yr amser sydd ar gael yn ystyried cyfyngiadau'r amserlen gyffredinol, megis amlder cyfarfodydd.

O ran cylchoedd gwaith y pwyllgorau, rydym yn nodi bod rhai agweddau ar gylchoedd gwaith sawl pwyllgor yn gorgyffwrdd, sy’n golygu bod risg y bydd rhai meysydd polisi yn “gwympo rhwng dwy stôl”. Dylai’r Pwyllgor Busnes ystyried sut y gellir sicrhau bod rhaglenni gwaith pwyllgorau’n cael eu cydgysylltu’n well, i nodi bylchau, ond hefyd i nodi synergeddau posibl. Yn yr un modd, credwn y dylai’r Pwyllgor Busnes ystyried sut i wreiddio cydweithio yng ngwaith Pwyllgorau’r Senedd – ar hyn o bryd, mae trefniadau ar gyfer hyn yn ad hoc ac yn llai effeithlon nag y gallent fod.

Ar y cyfan, rydym o’r farn ei bod yn rhy gynnar i gyflwyno newidiadau sylfaenol i amserlen y pwyllgorau a’u cylchoedd gwaith. Rydym newydd ddechrau’r trydydd tymor yn y Senedd hon; mae’r drefn bwyllgora wedi bod ar waith am lai na dau o’r rheini. Ar ben hynny, mae'r drefn wedi bod yn gweithio mewn byd rhithwir yn bennaf - bydd heriau newydd yn codi wrth i’r pwyllgorau newid i fformatau hybrid o gyfarfod yn fwy rheolaidd neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Peth call fyddai i’r Pwyllgor Busnes ohirio unrhyw newidiadau sylfaenol hyd nes y bydd ganddo well ddealltwriaeth o natur yr heriau hyn.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.